



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Asesiad Perfformiad

Blynyddol 2024–25

Cyhoeddwyd Hydref 2025

This publication is available in English

Rheoli Fersiwn

Dyddiad diwygio	Crynodeb o Ddiwgiadau	Rhif y Dudalen
Hydref 2025	Cyhoeddi'r ddogfen ar y Wefan	-
Rhagfyr 2025	Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad wedi'i ddiweddaru	33

Cynnwys

Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd	5
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	5
Gogledd Cymru	5
Adnoddau a Gweithgaredd	6
Staffio.....	6
Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân.....	7
Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant	8
Ein Hegwyddor Pobl	9
Ein Hegwyddor Atal	19
Ein Hegwyddor Diogelu.....	24
Ein Hegwyddor Ymateb	27
Ein Hegwyddor Amgylchedd	31
Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad	33
Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2024-25	36
Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni	42
Gwybodaeth Arall.....	42
Ymgynghoriadau	43
Geirfa a Diffiniadau	44
Dweud eich dweud	46

Croeso i'r adolygiad blynyddol cyntaf o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 5 mlynedd

Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu ein cynnydd yn ystod 2024-25, y flwyddyn gyntaf o gyflawni ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) pum mlynedd newydd 2024-29. Mae'n garreg filltir bwysig wrth i ni barhau â'n taith tuag at wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, tra'n sicrhau bod ein Gwasanaeth yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o gynnydd a newid. Ochr yn ochr â gofynion gweithredol cynyddol a'r heriau a achosir gan danau gwyllt, digwyddiadau tywydd garw, a moderneiddio ein seilwaith, rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar adeiladu gweithlu cynhwysol, cefnogol ac ymgysylltiedig. Trwy fforymau a mentrau newydd, rydym yn rhoi mwy o gyfleoedd i staff rannu eu barn, siapio ein diwylliant, a sicrhau bod ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn.

Yn ystod 2024-25, gwnaethom gwblhau 20,021 o Archwiliadau Diogel ac Iach – gan fynd uwchlaw ein targed a helpu i amddiffyn yr aelodau mwyaf bregus yn ein cymunedau. Gan weithio'n agos gyda'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, rydym wedi cryfhau ein gallu i nodi'r rhai sydd mewn perygl mwyaf a darparu cymorth atal a diogelwch wedi'i dargedu lle mae ei angen fwyaf.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd pwysig wrth lunio ein dyfodol. Mae'r Prosiect Canolfan Hyfforddi a Datblygu yn parhau i symud ymlaen, gyda thir wedi'i sicrhau a'r gwaith adeiladu wedi'i gynllunio i'w gwblhau yn 2029. Ar yr un pryd, mae ein Cynllun Datgarboneiddio Fflyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, gan gyflwyno Olew Llysiau Hydrotreated (HVO) i leihau allyriadau ar draws ein gweithrediadau.

Eleni, fe wnaethom ymateb i 6,489 o ddigwyddiadau, gan gynnwys 1,804 o danau, ac, yn anffodus, cofnodwyd tri marwolaeth sy'n gysylltiedig â thân. Mae'r ffigurau hyn yn ein hatgoffa pam mae ein gwaith – ar draws atal, amddiffyn, ac ymateb brys – yn parhau i fod mor hanfodol.

Fel bob amser, rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ein hadroddiadau. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar dudalen olaf yr adroddiad hwn.



North Wales Fire and Rescue Authority



Prif Swyddog Tân



**Cadeirydd yr
Awdurdod Tân**

Gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd

Mae'r Awdurdod o'r farn bod atebolrwydd i'r cyhoedd a thryloywder yn hollbwysig ym mhob agwedd ar ei berthynas â chymunedau lleol, partneriaid a sefydliadau ac mae'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd i'w gweld [yma](#).

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae 28 aelod etholedig o [Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru](#). Mae'r Gwasanaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Tân, yn cynnwys llawer o wahanol adrannau sydd i gyd yn cyfrannu at redeg y gwasanaeth tân. Mae mwy o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar gael [yma](#).

Gogledd Cymru

Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu'r Awdurdod i gynllunio i wneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ardal y mae'r Gwasanaeth yn helpu i'w diogelu [yma](#).



Adnoddau a Gweithgaredd

Isod ceir crynodeb o adnoddau a lefelau gweithgareddau'r Awdurdod yn 2024-25.

Gorsafoedd Tân	Injans Tân Llinell Blaen	Galwadau 999 yr Ymdriniwyd â Hwyl	Staff y Gwasanaeth Tân (ar 31 Mawrth 2025)
 44	 53	 14,535	 949 (nifer)
Digwyddiadau Argyfwng y Rhoddwyd Sylw Iddynt	Tanau	Galwadau Diangen	Argyfyngau nad oeddent yn Dân
 6,489	 1,804	 3,264	 1,421

Gall data digwyddiadau fod yn destun mân newidiadau.

Staffio

Ar 31 Mawrth 2025	Cryfder cyfwerth ag amser llawn	Cyfrif pennau staff unigol
Gweithredol Amser Cyflawn (System Dyletswydd Amser Cyflawn)	283.00	283
Gweithredol Rhan Amser (System Dyletswydd Ar- alwad/ Rhan amser)	364.80	487
Gwasanaethau Corfforaethol	144.08	148
Ystafell Reoli	30.75	31
Cyfansymiau	822.63	949

Nodwch fod y ffigur o 949 a ddyfynnir uchod yn cyfateb i 887 o bobl. Mae hyn oherwydd unigolion sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth mewn mwy nag un rôl neu swydd. Er enghraifft, gallai gweithredwr rheoli hefyd weithio fel diffoddwr tân ar alwad.

Mae bron i hanner y personél a gyflogir gan yr Awdurdod yn cael eu categorio fel diffoddwr tân ar-alwad.

Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

Atal Tân	drefnu bod diogelwch tân yn cael ei hyrwyddo yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys addysgu pobl ynghylch atal tân a'u cynghori pa ymateb sydd orau os bydd tân yn digwydd.
Gorfodi Diogelwch Tân	bod yn gyfrifol am orfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig, er enghraifft, gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i orfodi newidiadau, gorfodi a hyd yn oed roi hysbysiadau gwahardd os ydynt yn canfod bod trefniadau diogelwch tân yn anfoddhaol mewn safleoedd.
Ymateb Brys	gwneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac anfon personél hyfforddedig â'r offer priodol i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywydau ac eiddo yn y tanau hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u hamddiffyn rhag niwed difrifol.
Cynllunio ac Ymateb i Argyfyngau Eraill	gwneud trefniadau ar gyfer dadheintio pobl ar lefel dorfol ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi cwmpo. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau ar raddfa fawr (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) mewn mannau eraill yn y DU. Fel ymatebwyr 'Categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae gan awdurdodau tân ac achub ddyletswyddau hefyd yn ymwneud â dyletswyddau digwyddiadau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a phrif gadwyni cyflenwi.
Argyfyngau Llifogydd a Dŵr Mewndirol	gwneud trefniadau i ymateb i achosion o lifogydd neu achub o ddŵr sy'n peri bygythiad uniongyrchol a allai achosi marwolaeth neu anaf.
Cydraddoldeb	gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol.
Y Gymraeg	trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n ddiffiniedig.
Gwella Parhaus	gosod amcanion yn barhaus i wella'r hyn a wnânt, a chyhoeddi gwybodaeth am eu gwelliannau a'u perfformiad.
Cynllunio ar gyfer y Dyfodol	gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl yn ogystal â gweithio mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol.


Gallwch ddarllen mwy am ein rhwymedigaethau statudol [yma](#).

Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor yn ystod 2024-25. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2024-25, a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn, 31 Hydref 2025.

Ym mis Ebrill 2021 cymeradwyodd y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC) y 'Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol' (CRMP) fel [Safon Tân](#) ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Lloegr. Er bod y Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae'r holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru wedi mabwysiadu canllawiau'r NFCC i gyhoeddi CRMP.

Mae'r Awdurdod wedi ymgorffori argymhellion yr NFCC yn ei gylch adrodd blynyddol, ac wedi diweddarau ei gynllun hirdymor blaenorol gyda [Chynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd newydd 2024-29](#). Mae Pum Egwyddor newydd yr Awdurdod wedi disodli'r saith amcan gwella a lles hirdymor presennol.



Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd gwaith i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu hymgorffori trwy bob cynllun adrannol lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r [Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024-25](#) yn rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu yn ogystal â chadarnhau cynllun gwaith ar gyfer 2025-26.

Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn y blaengynllun gwaith yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth.



Ein Hegwyddor Pobl

Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.

Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir. Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu llawn cymhelliant a dwyieithog sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Cymru
gydnerth



Cymru o
gymunedau
cydlynus



Cymru
iachach



Cymru â
diwylliant
bywiog
lle mae'r
Gymraeg yn
ffynnu



Cymru
tecach



Cymru
llewyrchus

Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Gweithredu'r argymhellion ar gyfer gwella yn dilyn Arolwg Staff Teulu Tân 2023.

Sefydlwyd Grŵp Prosiect Arolwg Staff Teulu Tân gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd i ffurfio rhan o gynllun gweithredu ar gyfer gwella, yn dilyn adborth a dderbyniwyd.

Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys staff o bob rhan o'r Gwasanaeth, yn adrodd yn rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth.

Mae cynllun gweithredu ar y gweill ac mae'n cael ei gyfathrebu i'r holl staff yn rheolaidd.

Mae'r gweithgareddau a gwblhawyd hyd yma yn cynnwys:

- Cyflwyno gwisgo 'dangosyddion rôl' fel rhan o'r wisg weithredol.
- Paratoi creu ardal ymgysylltu newydd ar y fewnrwyd.
- Addasiadau i'r seremoni wobrwyo flynyddol.
- Gweithgareddau ymgysylltu â ffrydiau gwaith rheolwyr criw.
- Nodwedd newydd 'Goleuo Llwyddiant' yng nghylchlythyr mewnol y Gwasanaeth, lle gall cydweithwyr adnabod gwaith eu cyfoedion.

Mae'r gwaith yn parhau i sefydlu cynlluniau ar gyfer dyfodol y grŵp, ac aelodau newydd, i baratoi ar gyfer yr arolwg staff nesaf sydd i fod yn ystod yr Hydref 2025.

Amcan 2: Mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Holl Wasanaethau Tân ac Achub Cymru ar gyfer 2025–2030 a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer meddwl yn arloesol a gweithio i gefnogi cydweithio a phartneriaeth barhaus.

Mae'r fersiwn derfynol o'r strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol wedi'i chymeradwyo gan Grŵp Cymru Gyfan. Roedd yr amcanion y cytunwyd arnynt rhwng tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn cynnwys:

- Cynllunio'r gweithlu
- Diwylliant a Chynhwysiant
- Iechyd a Llesiant
- Arloesi a Thechnoleg
- Arweinwyr y Dyfodol

Mae'r fersiwn ddrafft wedi'i hanfon at y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol am eu sylwadau.

Amcan 3: Cyflwyno 'Fforwm Ymgysylltu Diwylliant Staff: Grymuso Diwylliant yn ein Gwasanaeth' – i esblygu a datblygu ein taith ddiwylliannol yn barhaus.

Mae diwylliant y gweithle wedi bod yn ffocws llawer o'n gweithgareddau yn ddiweddar, gyda sawl menter allweddol yn digwydd ar draws y Gwasanaeth, yn ogystal â chraffu allanol uwch.

Yn ystod mis Gorffennaf, penododd y Gwasanaeth, ynghyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Crest Advisory ar y cyd i hwyluso adolygiad diwylliannol annibynnol.

Ochr yn ochr â'r adolygiad allanol hwn, ceisiwyd gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn Fforwm Ymgysylltu Diwylliannol Staff newydd, i fod yn rhan weithredol o'r daith wella diwylliannol o fewn y Gwasanaeth, i helpu i nodi a gweithredu cynlluniau gwella sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd ac yn helpu i feithrin a hwyluso amgylchedd gwaith cynhwysol, cefnogol ac effeithiol.

Cafwyd ymateb gwych i'r apêl hon, ac mae cynrychiolaeth ar y fforwm gan ddetholiad eang o staff o wahanol adrannau, gorsafoedd a swyddogaethau.

Mae'r Fforwm wedi sefydlu cysylltiadau cryf â'r Grŵp Prosiect Arolwg Staff Teulu Tân ac roedd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir gan y Gwasanaeth wedi'i wreiddio mewn atebolrwydd a thryloywder, gydag ymrwymiad i ragoriaeth a gwelliant parhaus.

Gweithiodd y Fforwm hefyd yn ochr yn ochr â'r Tîm Trawsnewid, adrannau eraill, a chyrrff cynrychioliadol i ddewis meysydd ffocws er mwyn nodi materion oedd angen eu codi i'r Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad gan Crest Advisory, sefydlwyd bwrdd diwylliannol sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Tân. Yn y dyfodol, bydd yn gweithio'n agos gyda

rhwydweithiau staff, Grwpiau Ymgysylltu â Staff, Grŵp Prosiect Arolwg Staff Teulu Tân, yn ogystal â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Y nod yw sicrhau bod y broses mor gydweithredol a chynhwysol â phosibl, lle mae gan bawb lais wrth lunio dyfodol y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Amcan 4: Darparu cefnogaeth iechyd a lles galwedigaethol ardderchog i sicrhau bod Rheoli Presenoldeb o fewn y Gwasanaeth yn broses gadarnhaol a chefnogol er mwyn gwella presenoldeb.

Cynhaliwyd proses dendro yn ystod y flwyddyn i gaffael darpariaeth gwasanaethau darparwr iechyd galwedigaethol newydd. Hysbyswyd yr holl weithwyr am drosglwyddo cofnodion gwybodaeth iechyd o'r darparwr presennol i'r cwmni newydd, llwyddiannus.

Rhoddwyd cymorth AD ychwanegol ar waith am gyfnod byr o amser, i leihau unrhyw effaith a mynd i'r afael ag unrhyw benderfyniadau a fyddai fel arfer yn cael eu cwmpasu gan atgyfeiriad iechyd galwedigaethol.

Ymgwymerodd arbenigwyr AD ag ymweliadau gorsafoedd rheolaidd, sesiynau Siop Siarad, Hyfforddiant Ar-lein, a chyfarfodydd i sicrhau bod yr holl weithwyr yn parhau i gael eu cefnogi yn ystod y cyfnod pontio.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm Iechyd, Ffitrwydd a Llesiant i sicrhau bod cyfres gynhwysfawr o gymorth ar gael i'r holl staff. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithio â sefydliadau allanol fel Mind, Elusen y Diffoddwyr Tân, 2 Wish, a gwasanaethau golau glas eraill fel Heddlu Gogledd Cymru. Mae canllaw byr newydd wedi'i greu i staff a rheolwyr llinell ei ddefnyddio yn dilyn canlyniad yr adolygiad diwylliannol, yn ogystal â phecynnau fideo a gynhyrchwyd gyda chymorth Cyfathrebu Corfforaethol.

Amcan 5: Sicrhau gweithlu diogel a chymwys drwy ddatblygu, cynnal a chylchredeg polisiau a gweithdrefnau gweithredol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae gwaith gyda Pholisïau a Gweithdrefnau yn parhau gyda chwe chyfres bolisi yn cael eu hawdurdodi i symud ymlaen i naill ai ymgynghori neu gyhoeddi ym mhob cyfarfod ffurfiol chwe wythnos o'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth. Mae adran arall wedi cymryd rhan mewn cynnig polisi newydd sbon, tra bod y ddwy adran gyda'r set fwyaf o gyfreithiau polisi (Adnoddau Dynol, a Chyllid a Chaffael) yn agos at gwblhau eu set lawn o ddogfennau. O ran strategaeth, mae amserlenni bellach yn cael eu sefydlu yn gynnar yn y broses ddatblygu polisi trwy'r Canllaw Proses pwrpasol; mae hyn yn cynnwys nodi cyfarfod ffurfiol y Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth fel targed i gymeradwyo cyfres bolisi ar gyfer ymgynghori ac mae'n profi'n llwyddiannus wrth ganolbwyntio'r perchennog polisi i ymgymryd mewn modd amserol.

Mae'r gwaith yn parhau gyda'r Adran TGCh i wneud y rhyngwyneb polisi ar yr Hwb mewnol yn fwy hawdd ei ddefnyddio. Yn yr un modd, mae'r maes polisi iaith Gymraeg wedi'i boblogi â'r dogfennau sydd wedi'u dychwelyd gan y gwasanaeth cyfieithu, ac mae'r rhain i gyd bellach ar y templed diweddaraf ac yn y fformat cywir, yn barod i'w prawfddarllen.

Amcan 6: Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am risg weithredol yn cael ei chasglu, ei chofnodi, ei hasesu a'i chyfleu i bersonél gweithredol.

Roedd personél o'r Gwasanaeth yn cadeirio ac yn mynychu cangen y 'Gweithgor Ynni

Adnewyddadwy' o Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru. Pwrpas y grŵp hwn yw nodi safleoedd risg uchel newydd a phresennol yn ardal Gogledd Cymru. Trefnwyd cyfarfod anghyffredin i roi ymateb ymgynghorol ffurfiol i safle System Ynni a Storio Batri yn ardal Gwynedd.

Cynhaliwyd ymweliadau risg gweithredol fel y cynlluniwyd ac mae adolygiad o Borthladd Caergybi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Amcan 7: Darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.

Ym mis Tachwedd, mynychodd aelodau'r Gwasanaeth Tân gynhadledd 'Hyrwyddo Dwyieithrwydd o fewn y Gwasanaeth', a drefnwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y digwyddiad, a oedd yn anelu at annog arferion dwyieithog yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn rhoi amrywiaeth gyffrous o drafodaethau, strategaethau ac astudiaethau achos yn arddangos integreiddio llwyddiannus y Gymraeg i'r gweithle, y cyfryngau, addysg a bywyd cymunedol.

Er mwyn gwella a helpu i nodi Archwiliadau Diogel a lach wedi'u cwblhau yn Gymraeg, ychwanegwyd cwestiwn newydd sy'n benodol i'r dewis iaith Gymraeg at y ffurflen atgyfeirio ar-lein.

Cymeradwywyd adroddiad monitro blynyddol Safonau'r Gymraeg gan aelodau'r Awdurdod Tân yn y cyfarfod ar 21 Hydref 2024 ac mae ar gael i'w weld [yma](#).

Rydym yn gwasanaethu cymuned ddwyieithog, ac mae ein Gwasanaeth yn gweithredu mewn dwy iaith, gan roi cyfle i'n trigolion weithio'n lleol yn eu hiaith leol.

Amcan 8: Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynnig dylunio ar gyfer y Ganolfan Hyfforddiant a Datblygu newydd gan arwain at gyflwyno cynllun terfynol i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.

Sefydlwyd prosiect y Ganolfan Hyfforddi i ymateb i risgiau gweithredol ac ariannol sy'n gysylltiedig â threfniadau hyfforddi cyfredol ac i ddarparu cyfleuster addas i'r diben sy'n diwallu anghenion hirdymor y Gwasanaeth. Dechreuodd y prosiect yn 2022, a chwblhawyd y pryniant tir yn ystod mis Hydref 2024.

Yng Nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar [21 Hydref 2024](#), cyflwynwyd 4 dewis i'r Awdurdod i'w hystyried:

- Dewis 1: Cynnal cyfleusterau presennol gyda mân adnewyddiadau.
- Dewis 2: Buddsoddi mewn uwchraddio cyfleusterau presennol. Dewis 3: Datblygu canolfan hyfforddi ganolog newydd i ddiwallu anghenion hyfforddi craidd.
- Dewis 4: Datblygu canolfan hyfforddi aml-berygl gynhwysfawr, aml-asiantaeth.

Cymeradwyodd yr Awdurdod, dewis tri, mewn egwyddor, ac roeddent wedi ymrwymo i gynnal momentwm y datblygiad, gyda ffocws ar fforddiadwyedd ac opsiynau ariannu cynaliadwy.

Nodwyd y bydd angen adnoddau ychwanegol i gefnogi'r prosiect hwn a bydd hysbysebion swyddi yn cael eu hysbysebu yn gynnar y flwyddyn nesaf ar gyfer Dirprwy Reolwr Prosiect a Swyddog Cymorth Prosiectau.

Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau yn ystod 2029.

Amcan 9: Darparu ail flwyddyn strategaeth hyfforddiant gweithredol tair blynedd i'r holl staff gweithredol.

Adolygwyd a chytunwyd ar y cynllun hyfforddi drafft ar gyfer 2025-26, cyn cael ei gyhoeddi ar y Ffynwys Gwasanaeth.

Mae'r adborth a gafwyd ar gyrsiau a gynhaliwyd yn chwarter un wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae adborth a oedd yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer gwella posibl wedi'i rannu gyda'r rheolwr priodol ar gyfer gweithredu.

Mae personél gweithredol wedi mynychu Coleg y Gwasanaeth Tân i ymgymryd:

- Cwrs Hyfforddwr Cyfarpar Anadlu
- Cwrs Hyfforddwr Damwain ar y Ffordd
- Cwrs Hyfforddwr Technegau Ymddygiad Tân Adrannol

Bydd y sgiliau hyn yn gwella darparu cyrsiau gwasanaeth a hyblygrwydd o fewn y tîm o hyfforddwyr Gwasanaeth.

Mae archwiliad o weithredu'r strategaeth hyfforddi gyfredol wedi'i gynnal gan ddarparwr allanol ac mae'r adroddiad wedi'i ddarparu i'r Gwasanaeth. Mae'r adroddiad wedi rhoi sgôr sylweddol ar draws sawl maes hyfforddi a pherfformiad cyffredinol yr Adran Hyfforddi a Datblygu.

Mae'r adroddiad archwilio hefyd yn tynnu sylw at nifer o argymhellion, a bydd y rhain yn rhan o gynllun gweithredu adrannol hyfforddiant ar gyfer 2025-26.

Amcan 10: Meithrin amgylchedd yn y gweithle sy'n cofleidio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd hyn yn cryfhau ein gallu i ddarparu gwasanaeth a chymorth o ansawdd uchel i'r cyhoedd yn ystod argyfyngau.

Cyn ymgynghoriad Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 y gwasanaeth, cynhyrchodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i nodi gwahanol grwpiau buddiannau cydraddoldeb.

Cysylltwyd â 70 o sefydliadau a grwpiau cymunedol yn ystod y cyfathrebu cychwynnol i helpu i hyrwyddo'r ymgynghoriad ac annog pobl i roi adborth. Yn ogystal, trefnwyd 12 grŵp ffocws i sicrhau bod y gwasanaeth yn casglu adborth gan wahanol grwpiau cydraddoldeb ledled Gogledd Cymru. Roedd y cynnig o sesiynau wyneb i wyneb yn effeithiol iawn, yn enwedig ymhlith pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, a phobl nad ydynt yn gallu cyflwyno adborth ar-lein oherwydd and oes ganddyn nhw fynediad i'r we a chyfryngau cymdeithasol, neu yn dewis peidio eu defnyddio.

Mae'r adborth a gasglwyd wedi helpu'r Swyddog EDI i greu [Adroddiad Dadansoddiad Effaith Cydraddoldeb](#) cynhwysfawr sy'n cynnig sicrwydd o ran cyfeiriad strategol, gwneud penderfyniadau a chydymffurfiaeth gyfreithiol.

Wrth baratoi ar gyfer ymgyrch recriwtio diffoddwyr tân llawn y gwasanaeth yn ystod Mehefin 2024, trefnwyd ystod o weithgareddau gweithredu cadarnhaol, a oedd yn cynnwys 'diwrnodau darganfod' a sesiynau 'Ffitrwydd Tân'. Roedd yr ymgyrch yn anelu at dargedu pobl sydd wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu gweithredol ar hyn o bryd fel ffordd o annog fwy o amrywiaeth o bobl i wneud cais am rolau diffoddwyr tân yn y dyfodol.

Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- Dathlu diwrnod Windrush ym mis Gorffennaf, gyda digwyddiad wedi'i drefnu yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.
- Sesiwn gofal bugeiliol wedi'i theilwra ar gyfer diffoddwyr tân prentis dan hyfforddiant newydd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf.
- Y cyntaf o ddigwyddiad teithiau cerdded y Merched yn y Gwasanaeth Tân yn ystod mis Awst.

Cymeradwywyd Cynllun [Gweithredu Cydraddoldeb 2023-24](#) gan aelodau'r Awdurdod Tân yn y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

Amcan 11: Gwella iechyd, ffitrwydd a llesiant staff trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth, monitro gweithredol ac addysg.

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ei fod yn agored i'w staff i sefyllfaoedd o straen corfforol a meddyliol ac mae eu cefnogi yn allweddol i sicrhau gweithlu diogel ac iach. Felly, mae tîm Iechyd, Ffitrwydd a Llesiant pwrpasol yn gweithio i gefnogi staff trwy hyrwyddo dewisiadau ffordd iach o fyw, a thrwy ddarparu cyngor a chefnogaeth ar draws meysydd lles amrywiol.

Ar ôl penodi'r darparwr iechyd galwedigaethol newydd, cynhaliwyd cyfarfodydd i rannu arfer da a thrafod y posibilrwydd o brofi atgyfeirio newydd a dychwelyd i'r gwaith.

Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ynglŷn â'r broses ar gyfer pan fydd staff gweithredol yn methu eu profion ffitrwydd blynyddol. O ganlyniad, bydd staff Iechyd Galwedigaethol nawr yn gweithredu system sgorio a fydd yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd, gan ganiatáu ymyrraeth gyflymach lle bo angen.

Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda'r adran Adnoddau Dynol i leihau cyfnodau o salwch oherwydd salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ac i gynorthwyo'r gweithwyr hynny sydd wedi bod oddi ar y gwaith gyda phroblemau iechyd meddwl i helpu i ddychwelyd i'r gwaith.

Roedd presenoldeb yn y Symposiwm Iechyd Meddwl Golau Glas ym mis Ionawr yn canolbwyntio ar ddiwylliant, cefnogaeth i deuluoedd ac atal hunanladdiad. Rhannodd y prif siaradwr rai offer defnyddiol y mae'r Gwasanaeth bellach yn ceisio eu mabwysiadu, gan gynnwys pecyn cymorth cymorth i deuluoedd fel y'i defnyddir gan y Gwasanaeth Ambiwylans, Offeryn Dysgu Ar-lein y Rhaglen Gobaith, a'r Canllaw Hunanladdiad Elusennol Elusennau Diffoddwyr Tân.

Cafodd myfyrwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngholeg Menai yn Llangefni flas o'n proses ymgynghori profion ffitrwydd a lles fel rhan o'u gwaith aseiniadau. Mynegodd llawer o'r myfyrwyr ddiddordeb brwd mewn ymuno â'r gwasanaeth ac mae rhai unigolion

wedi cadarnhau y byddant yn gwneud cais am rolau diffoddwr tân wedi'u cadw mewn gorsafoedd cyfagos.

Roedd hwn yn gyfle gwyh i weithio yn ein cymuned i gynnig cyngor iechyd, dangos y safonau o fewn ein gwasanaeth a hyrwyddo recriwtio.

Roedd camau gweithredu eraill wedi'u cwblhau yn cynnwys:

- Cynnal gweithdy Atal Hunanladdiad i Bobl Hŷn yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.
- Trefnu cystadleuaeth fewnol sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol ar draws y Gwasanaeth.
- Mynychu digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yng ngorsafoedd tân Porthmadog, Dolgellau a'r Rhyl yn ystod mis Rhagfyr gan gynnig gwiriadau pwysedd gwaed am ddim a chyngor ar iechyd a lles.

Amcan 12: Adolygu'r pyrth ar gyfer dyrchafiad a dilyniant gyrfa a gweithredu proses arfarnu gynhwysfawr sy'n integreiddio adborth 360 gradd.

Mae'r gofyniad am broses arfarnu adborth 360 wedi'i archwilio'n drylwyr yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi staff i nodi eu cryfderau ac unrhyw feysydd i'w gwella, gan arwain at well hunan-ymwybyddiaeth, yn ogystal â hyrwyddo dros dro a gwella cadw gweithwyr.

Cynhaliwyd cyfnod helaeth o ymchwil yn edrych ar Wasanaethau Tân ac Achub eraill am enghreifftiau o arfer gorau ac yna cwrdd â rhestr fer o gyflenwyr posibl i arddangos eu cynhyrchion a siarad am y manteision y byddai'n eu cyflwyno i'r Gwasanaeth.

Following a comparison of product aYn dilyn cymhariaeth o allu cynnyrch a chostau, gwnaed penderfyniad i brynu a bwrw ymlaen â'r feddalwedd Appraisal360. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gydag Appraisal360 i symud ymlaen wrth weithredu eu system, ac i sicrhau eu bod ar fframwaith caffael.

Mae'r platfform meddalwedd 360 bellach yn barod i'w gyflwyno i aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth yn unol â'r cynllun gwreiddiol.

bility and costings, a decision was made to purchase and proceed with the Appraisal360 software. Further meetings were held with Appraisal360 to progress the implementation of their system, and to ensure they are on a procurement framework.

The 360-software platform is now ready to be rolled out to members of the Service Leadership Team in line with the original plan.

Amcan 13: Bydd staff ataliol yn derbyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Caethwasiaeth Fodern, Camfanteisio ar Blant a Thrais Domestig er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Parhaodd sesiynau hyfforddi bob mis i ddatblygu gwybodaeth yn barhaus o fewn y timau Atal Diogelwch Tân.

Roedd y pynciau'n cynnwys:

- Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol a Llinellau Sirol
- Beth yw Niwroamrywiaeth?
- Hyfforddiant Amddiffyn Unigol
- Menywod sy'n gaeth i Gamblo

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gorfodol '[Gofyn a Gweithredu](#)' yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Rhaid i bob aelod o staff gwblhau hyn bob dwy flynedd.

Amcan 14: Bydd staff Diogelwch Tân Busnes a Diffoddwyr Tân Gweithredol yn cael eu hyfforddi yn unol â Fframwaith Cymhwyseddau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ar gyfer Rheoleiddwyr Diogelwch Tân sy'n gweithio tuag at gofrestru o fewn Cofrestr Gyd-destunol yr Archwilydd.

Mae nifer o staff Diffoddwyr Tân Gweithredol wedi ymgymryd â chymwysterau lefel 2 Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder, tra bod staff Tân Busnesau wedi ymgymryd â chymysgedd o gymwysterau i ennill y Dystysgrif Lefel 3, y Dystysgrif Lefel 4, a'r Diploma Lefel 4 mewn Diogelwch Tân.

Mae nifer o fodiwlau y mae personél wedi'u cwblhau mewn perthynas â'r cymwysterau hyn sy'n cynnwys Rheoliadau Adeiladu a Hyfforddiant Cyfreithiol ar gyfer y Diploma.

Ar hyn o bryd mae aelod o staff yn gweithio tuag at gymhwyster Technegydd Peirianeg Tân, sy'n gymhwyster Lefel 5.

Mae nifer o gyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd wedi'u darparu i sicrhau dysgu parhaus ac ymrwymiad i ddatblygiad staff yn yr amgylchedd Diogelu.

Yn arbennig ar ôl Grenfell, mae drysau tân wedi dod yn bwnc hyd yn oed mwy nag yr oeddent o'r blaen oherwydd y methiannau hynny, felly, cwblhaodd yr holl staff gwrs arolygu drysau tân.

Mae nifer o staff hefyd wedi cwblhau'r cwrs Memoranda Technegol Iechyd, sy'n ymwneud ag archwilio safleoedd Gofal Iechyd, a chwblhawyd hyn mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r hyfforddiant hwn yn barhaus i gydymffurfio â Fframwaith Cymhwysedd Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol ac agwedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus y fframwaith hwnnw.

Amcan 15: Bydd staff gweithredol yn derbyn hyfforddiant a chymwysterau perthnasol i'w galluogi i gynnal archwiliadau diogelwch busnes yn unol â chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Cynhaliwyd Cyfarfod yng Nghanolbarth Cymru ar gyfer gweithgorau Diogelwch Tân Cymru Gyfan. Roedd hyn er mwyn sicrhau parhad ledled Cymru ar gyfer y broses archwilio ar gyfer criwiau gweithredol.

Mae datblygiadau wedi'u gwneud i'r system gronfa ddata Diogelwch Tân i sicrhau bod mewnbyn gwybodaeth yn haws i griwiau gweithredol ei chwblhau ac felly'n cael ei

gofnodi'n fwy cywir.

Cafodd pecyn hyfforddi ei ddatblygu a'i gyflwyno ar draws staff gweithredol ar sut i gwblhau'r 'Ffurflen Archwilio Busnes Fer' newydd.

Darparwyd cwrs arolygu drysau Diogelwch Tân gan ddarparwr allanol, a roddodd fewnwelediad gwerthfawr i'r enghreifftiau da a drwg o ddrysau tân.

Cwblhaodd un o'r Swyddogion Cydymffurfio Tân Busnes ei gymhwyster Diploma Lefel 4 (Arolygwyr Tân) yn llwyddiannus.

Mae cynllun hyfforddi eisoes wedi'i ddatblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf, i sicrhau bod modd symud ymlaen hyfforddiant cyn gynted ag y bydd y flwyddyn 2025-26 yn dechrau.

Amcan 16: Nodi a gwneud y mwyaf o botensial staff drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd.

Cymerodd staff ran yn Rhaglen Arweinydd Canol Cyngor y Pennaethiaid Tân Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau sy'n canolbwyntio ar:

- Pwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, dadansoddiad personol Cryfderau, Gweniddau, Cyfleoedd, Bygythiad (SWOT), a ffenestr Joharis.
- Arddulliau Dysgu eraill, fel y model 70/20/10.
- Mae'r model 70-20-10 yn fframwaith ar gyfer dysgu a datblygu sy'n awgrymu sut mae unigolion yn caffael gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae'n cynnig bod 70% o'r dysgu yn dod o brofiadau yn y gwaith, 20% o ryngweithiadau cymdeithasol, a 10% o hyfforddiant ffurfiol.
- Beth sy'n gynhwysol, ac modelu rôl ymddygiadau cynhwysol.
- Model cyfathrebu Shannon a Weaver
- 4 lefel gwrando Janet Starr.

Ym mis Ionawr, dechreuodd y Gwasanaeth dreialu dull newydd a chynhwysol o gyfweiliadau ar gyfer rolau a hysbysebiri yn fewnol ac yn allanol. Mae'r fenter hon yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i greu proses recriwtio gefnogol a theg i bob ymgeisydd.

Mae prif nodweddion y dull cyfweld newydd yn cynnwys:

- Deunyddiau Darllen Perthnasol: Bydd ymgeiswyr a wahoddir i gyfweiliadau yn derbyn dolen i ddim mwy na phum dogfen ddarllen allweddol. Bydd y dogfennau hyn yn berthnasol uniongyrchol i'r cwestiynau cyfweiliad, gan sicrhau bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ac yn cael eu hysbysu.
- Amser Paratoi Cyn y Cyfweiliad: ar ddiwrnod y cyfweiliad, bydd ymgeiswyr yn cael cyfnod o 30 munud i adolygu'r cwestiynau a chymryd nodiadau. Bydd hyn yn digwydd mewn ystafell ddynodedig gydag aelod o staff yn bresennol am gymorth.
- Gwerthuso: bydd dolen i ffurflen ar-lein yn cael ei hanfon at bob ymgeisydd drwy e-bost i gasglu adborth ar ddiwedd pob ymgyrch recriwtio.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu iechyd a diogelwch yn y gweithle ym Mhrydain Fawr. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â gwaith a damweiniau a fu bron â digwydd yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles. Er nad yw'n orfodol ar hyn o bryd, anogir cyrff cyhoeddus i gynnwys crynodeb o'u perfformiad iechyd a diogelwch yn eu hadroddiadau blyneddol.

Iechyd a Diogelwch

Ystadegau digwyddiadau diogelwch
dros y flwyddyn ariannol 2024/25



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



**Cynnydd o 18%
mewn ddamweiniau**

Cafodd **289** o ddigwyddiadau diogelwch ei gofnodi rhwng Ebrill 1af a Mawrth 31ain, i gymharu â chyfanswm o **307** dros y cyfnod 2023/24. Mae hyn yn ostyngiad o **6%**.



103

Achosion Agos



47

o anafiadau



34%

**o anafiadau yn arwain at
amser i ffwrdd o'r gweithle**



15


**adroddiadau o ddifrod
i Fflyd Wen**



73

**adroddiadau o ddifrod
i Fflyd Goch**

Fath o Ddifrod Cerbyd



Ymlaen: **79%**

Nôl: **11%**

Sefydlog: **10%**



Ein Hegwyddor Atal

Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Cymru
gydnerth



Cymru o
gymunedau
cydlynus



Cymru
iachach



Cymru sy'n
gyfrifol ar
lefel fyd-
eang


Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Cynnal 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach ledled Gogledd Cymru i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tan yn y cartref, gan gadw pobl yn fyw ac yn ddiogel rhag tan.

Cwblhawyd cyfanswm o 20,021 o Archwiliadau Diogel a Iach gan y Gwasanaeth ar draws cymunedau Gogledd Cymru, ac ohonynt:

- Roedd **5,089** (25.4%) yn flaenoriaeth uchel, gyda **2,689** (52.8% sy'n flaenoriaeth uchel wedi'u cwblhau) yn dod o asiantaeth bartner.
- Roedd **4,310** (21.5%) yn flaenoriaeth ganolig, gyda **426** (9.9% sy'n flaenoriaeth canolig wedi'u cwblhau) yn dod o asiantaeth bartner.
- Roedd **10,622** (53.1%) yn flaenoriaeth isel, gyda **606** (5.7% sy'n flaenoriaeth isel wedi'u cwblhau) yn dod o asiantaeth bartner.

Cyfeiriwyd cyfanswm o **3,721** o Archwiliadau Diogel a Iach a gwblhawyd i'r Gwasanaeth gan Asiantaeth, sy'n cyfateb i 18.6% o gyfanswm y archwiliadau a gwblhawyd.



Amcan 2: Defnyddio data partneriaeth i fireinio ein dull seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac iach i dargedu'r rhai dros 65 oed sydd fwyaf agored i niwed yn sgil tan yn y cartref.

Mae cytundeb rhannu data gyda phob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a'r GIG wedi'i gwblhau, sy'n caniatáu i'r GIG rannu setiau data ar gyfer pobl 65 oed a hŷn gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eu hardal.

Mae'r dadansoddwyr perfformiad wedi defnyddio'r data hwn i greu dangosfyrddau a mapiau rhyngweithiol, sy'n dangos ardaloedd lle mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn byw mewn cymunedau lleol. Mae'r dadansoddwyr perfformiad wedi addasu'r mapiau i nodi'r grwpiau oedran canlynol:

- 65 oed a throsodd
- 75 oed a hŷn, a
- y rhai sy'n 85 oed a throsodd

Mae ein personél tân gweithredol amser cyflawn a criw dydd bellach yn ymgymryd â gweithgareddau atal gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i dargedu aelwydydd sy'n 65 oed a throsodd ac a allai fod mewn mwy o berygl o dân yn digwydd yn y cartref.

Mae aelodau o'r Tîm Atal hefyd wedi bod yn mynychu gorsafoedd Dyletswydd Amser Cyflawn a Chriw Dydd i ymuno â gweithgaredd dyrannu atal dyddiol y Gwylfeydd sydd ar ddyletswydd. Bydd hyn yn helpu i rannu gwybodaeth ac yn helpu i hyrwyddo arfer gorau, ac wedi galluogi sicrhau ansawdd i ddigwydd ar safon Archwiliadau Diogel ac Iach, yn ogystal ag ar y wybodaeth a gyhoeddir.

Ymwelodd personél o'r adran Diogelwch Tân â gweithredwyr yr ystafell reoli a chyflwyno cyflwyniad ar gor-gasglu difrifol yn dilyn achos yr oeddent yn ymwneud ag ef. Yn yr achos hwn, roedd y preswlydd yn hynod ynysig, yn teimlo embaras, ac yn anfodlon ymgysylltu â gwasanaethau. Fodd bynnag, gydag amynedd a sgiliau cyfathrebu eithriadol, roedden nhw'n gallu adeiladu perthynas a magu ymddiriedaeth gyda pherchennog y tŷ. Trwy'r cysylltiad hwn, caniatodd yr unigolyn yn raddol i asiantaethau eraill gamu i mewn, gan alluogi dull aml-asiantaeth i wella'r sefyllfa. Mae timau ystafell reoli yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed yn rheolaidd, ac mae'r sesiwn hon yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i'r heriau bywyd go iawn sy'n wynebu ar lawr gwlad.

Amcan 3: Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ymyriadau diogelwch cymunedol effeithiol sy'n targedu ein pobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein hardaloedd mwyaf heriol.

Parhaodd Grŵp Llywio'r Ymgyrch i gyfarfod yn fisol i flaenoriaethu gweithgareddau atal tân yn y gymuned. Mae'r adrannau Cyfathrebu Corfforaethol wedi hyrwyddo'r ymgyrchoedd hyn ar draws pob platfform cyfryngau cymdeithasol.

Parhaodd staff atal sesiynau ymgysylltu â phartneriaid allanol i helpu i sicrhau ein bod yn derbyn atgyfeiriadau archwiliadau diogel ac iach o fewn grwpiau targed yn unig.

Roedd enghreifftiau o ymgysylltu â phartneriaeth yn cynnwys cyfarfod â:

- Y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi'i leoli yn Ysbyty Alltwen
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
- Therapyddion Galwedigaethol
- Cymdeithasau tai, a
- Tîm prosiect Heddlu Gogledd Cymru "Hel, Dal, Cryfhau".

Parhaodd y Gwasanaeth gyda'i gwaith arloesol gyda'r Groes Goch Brydeinig. Mae gwirfoddolwyr yn defnyddio cerbydau wedi'u haddasu'n arbennig, wedi'u stocio ag eitemau cymorth ymarferol fel dillad, blancedi, a phecynnau hylendid, a gallant fynychu gwahanol fathau o ddigwyddiadau brys i gefnogi pobl sy'n ymwneud ag argyfyngau fel tanau domestig, llifogydd neu ddigwyddiadau mawr.

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi partneru â [Safelincs](#) i ddarparu cyngor ac arweiniad ar-lein i leihau'r risg o dân yn y cartref. Mae'r Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref Ar-lein wedi'i ddatblygu gyda chefnogaeth holl Wasanaethau Tân ac Achub y DU, a'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol.

Yn ystod mis Ionawr, datganodd Dŵr Cymru ddigwyddiad mawr pan ffrwydrodd prif gyflenwad dŵr yn eu gwaith trin dŵr ym Mryn Cowlyd. Effeithiodd hyn ar y cyflenwad dŵr i dros 38,000 o eiddo yn ardal Conwy. Ymunodd y Gwasanaeth ag ymateb aml-asiantaeth i helpu i adnabod pobl agored i niwed. Roedd criwiau tân, gan gynnwys y rhai yn Llandudno, Bae Colwyn, Conwy ac Abergele, yn ogystal â staff o'n hadran Atal, yn brysur yn ein cymunedau, yn helpu i ddarparu dŵr potel i'r rhai mewn angen a chynorthwyo yn y mannau casglu dŵr a ddynodwyd gan Dŵr Cymru.

Amcan 4: Datblygu menter ieuenctid newydd i ddarparu ymyriadau cynnar gyda chanlyniadau effeithiol, gan ganolbwyntio ar wytnwch personol a ffactorau amddiffynnol ymhlith plant a phobl ifanc Gogledd Cymru.

Mae staff o dimau Atal a Ffenics wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd â chydweithwyr o'r Wylfa Las, Y Rhyl ar gwrs ymyrraeth deuddydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych.

Darparwyd y cwrs ymyrraeth deuddydd hwn ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych fel rhan o raglen chwe wythnos o'r enw 'SKITTLES'.

Cynhaliwyd y cwrs yng Ngorsafoedd Tân Prestatyn a'r Rhyl, gyda'r rhaglen wedi'i anelu at unigolion 16-18 oed sy'n cael eu cyflwyno fel digartref. Nod y rhaglen yw ymgysylltu â phobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol, eu grymuso a'u hannog i gymryd mwy o ran â'u cymunedau. Roedd hefyd yn edrych i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r bobl ifanc i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus.

Cafwyd trafodaethau am ganlyniadau gweithredoedd, yn enwedig ymddygiad gwrthgymdeithasol, cynnwau tân bwriadol a galwadau ffug, yn ogystal â sgysiau am ddiogelwch yn y llety dros dro y maent yn byw ynddo.

Ar ddiwedd y rhaglen chwe wythnos bydd mynychwyr wedi dysgu sut i ddatblygu perthnasoedd iach, ennill cymhwyster mewn hylendid bwyd, a chymorth cyntaf sylfaenol, a dysgu mwy am ymwybyddiaeth diogelwch tân, canlyniadau gweithredoedd a rôl y gwasanaeth tân.

Amcan 5: Hyrwyddo addysg diogelwch ar y ffyrdd, ymgysylltu a phartneriaid a chynnal ymgyrchoedd o fewn y gymuned leol, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd.

Yn ystod mis Ebrill, cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu ac addysg llwyddiannus i feicwyr modur yng Ngorsaf Dân Corwen. Daeth digwyddiad Panad i Feicwyr â chynrychiolwyr o Iechyd Meddwl Beiciau Modur, ROSPA Gogledd Cymru, Bloodbikes Cymru, Bikesafe, a swyddogion Beiciau Modur Traffig Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru at ei gilydd. Y nod oedd cysylltu â beicwyr modur a chynnig cyngor a gwybodaeth mewn lleoliad anffurfiol dros 'baned o de'.

Dywedodd yr holl asiantaethau a fynychodd eu bod wedi ymgysylltu'n dda â'r rhai a oedd yn bresennol, a'u bod i gyd wedi elwa.

Ym mis Gorffennaf, cyflwynodd Tîm Ymgyrch Ugain gyflwyniadau addysgol ar ochr y ffordd i yrrwyr sy'n rhagori ar y terfyn 20mya, ac ymunodd disgyblion o Ysgol Eifion Wyn ym Mhorthmadog.

Dywedodd y Dirprwy Bennaeth Atal: "Mae data'n dangos bod gostyngiad o 32% wedi bod mewn anafiadau ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru ers ei gyflwyno ac mae tystiolaeth ar wahân gan yswirwyr yn dangos gostyngiad o 20% mewn hawliadau".

Yn ystod mis Awst, cynhaliwyd cwrs Biker Down yng Ngorsaf Dân y Rhyl, gyda Swyddogion o Uned Troseddau Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol i ddangos eu cefnogaeth. Mae Biker Down yn gwrs rhad ac am ddim sy'n dysgu pobl sut i gadw beiciwr modur wedi'i anafu yn fyw nes bod ambiwlans yn cyrraedd yno pe byddant yn cyrraedd lleoliad gwrthdrawiad beic modur. Mae'r gweithdy yn cynnwys tri modiwl – rheoli lleoliad y digwyddiad, gofal damweiniau, a sgiliau reidio.

Yn ystod mis Awst, cynhaliwyd ymarfer partneriaeth yng Ngorsaf Dân Bae Colwyn fel rhan o'n gwaith i helpu i reoli'r risg sy'n dod i'r amlwg o gerbydau trydan neu gerbydau sy'n cael eu tanwydd amgen.

Ymunodd staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru â chydweithwyr o uned ymchwilio Heddlu Gogledd Cymru, swyddogion o'r adran Traffig, a chynrychiolwyr o Gyngor Sir y Fflint ar gyfer digwyddiad rhannu gwybodaeth.

Amcan 6: Gweithio'n agos a rhanddeiliaid allanol i atal boddi damweiniol yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu canllawiau cyson ar gyfer mwynhau a rheoli gweithgareddau yn ddiogel mewn dŵr, ar ddŵr ac o gwmpas dŵr.

Cynhaliwyd digwyddiadau diogelwch dŵr yn ystod mis Ebrill i nodi Diwrnod Cenedlaethol Atal Boddi, ynghyd ag aelodau o Gwylwyr y Glannau Achub y Clogwyni, Gwylwyr y Glannau Achub Mwd, a Canŵio Cymru. Cynhaliwyd tri digwyddiad yn Llyn Tegid (Y Bala), Llyn Padarn (Llanberis), a Chanolfan Hamdden Plas Madoc (Wrecsam).

Nod yr holl ddigwyddiadau hyn oedd hyrwyddo'r neges diogelwch dŵr, 'Arnofio i Fyw', i helpu i godi ymwybyddiaeth o sut y gall pobl helpu eu hunain pe baent yn cael trafferth mewn dŵr, a sut i fwynhau'r dŵr yn ddiogel. Roedd pob un o'r tri digwyddiad yn cynnwys cwch achub dŵr gyda chriw yn cael ei arddangos ac arddangosiadau ar sut i ddefnyddio llinell daflu a gwneud CPR.

Yn ystod y tywydd garw yn ystod mis Rhagfyr, roedd ymatebwyr aml-asiantaeth Gogledd Cymru yn gweithio'n ddiflino i amddiffyn ein cymunedau a lleihau effaith Storm Darragh.

Cyfarfu cynrychiolwyr y fforwm gwytnwch lleol sy'n cynnwys gwasanaethau brys, cynghorau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac asiantaethau a phartneriaid eraill yn rheolaidd yn y cyfnod cyn ac yn ystod y tywydd garw i gydlynu'r ymateb.

Gyda rhybudd coch prin am wynt a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Dywydd yn ystod y storm, sy'n adlewyrchu amodau a allai fod yn peryglu bywyd, penderfynodd Llywodraeth y DU ddefnyddio'r system rhybuddio brys am y tro cyntaf yng Nghymru i rybuddio pobl am Storm Darragh sy'n dod i mewn. Derbyniodd tua tair miliwn o bobl ledled Cymru a de-orllewin Lloegr y rhybudd ar eu ffôn symudol. Roedd rhybudd coch y Swyddfa Dywydd yn cyd-fynd â rhybuddion llifogydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ystod y penwythnos, derbyniodd ein gweithredwyr ystafell reoli 202 o alwadau yn ymwneud â'r tywydd garw, gyda 188 o'r rhain wedi'u derbyn ar anterth effaith y storm. Mynychodd y Gwasanaeth ystod eang o ddigwyddiadau ledled y rhanbarth, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â strwythurau peryglus oherwydd y gwynt, coed sydd wedi cwmpo, gosodiadau trydanol wedi'u heffeithio, a thanau tai a achosir gan broblemau trydanol a digwyddiadau llifogydd mewnol/allanol – gan gynnwys gyrru trwy ddŵr llifogydd.

Amcan 7: Adolygu adroddiadau ac offer monitro gweithgareddau a datblygu dangosfyrddau hunanwasanaeth i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ein gweithgareddau atal, diogelu ac ymateb.

Newidiwyd adroddiad Monitro Perfformiad yr Awdurdod i adlewyrchu'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol newydd a'r 'Pum Egwyddor' newydd sydd bellach wedi'u mabwysiadu.

Ymgwymerodd ein Dadansoddwyr Perfformiad â hyfforddiant Microsoft Power BI, sydd wedi caniatáu creu dangosfyrddau rhyngweithiol a thechnegau delweddu data ar ystod o ddata digwyddiadau a diogelwch tân.

Mae'r newidiadau hyn i gyflwyno data wedi arwain at well dadansoddiad a gwell dealltwriaeth o dueddiadau penodol.

Mae dangosfyrddau hunanwasanaeth wedi'u cyflwyno i uwch reolwyr, gan roi mwy o wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddigwyddiadau brys ledled Gogledd Cymru, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau deinamig.

Bydd y gwaith hwn yn parhau i'r flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y dangosfyrddau sy'n cael eu defnyddio ac ymchwilio i feddalwedd mapio ychwanegol y gellir ei ddefnyddio i wella ar offer delweddu data cyfredol.



Ein Hegwyddor Diogelu

Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

Amcanion llesiant a gyflawnwyd:



Cymru
gydnerth



Cymru o
gymunedau
cydlynus



Cymru
iachach



Cymru sy'n
gyfrifol ar
lefel fyd-
eang



Cymru
llewyrchus

Cyflawniadau yn 2024-25

Amcan 1: Adolygu ein Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg bresennol a sicrhau bod gennym drefn wybodus a rhesymegol sy'n seiliedig ar wybodaeth i nodi'r dosbarthiad risg perthnasol ar gyfer ein holl safleoedd ledled Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd cyfarfod Cymru Gyfan i sicrhau cysondeb ledled Cymru ar gyfer y broses archwilio a'r criwiau tân gweithredol.

Ar ôl cyfnod o brofi, mae Ffurflen Byr Archwilio Busnes wedi'i datblygu ac mae bellach yn cael ei defnyddio gan staff Diogelwch Tân. Mae pecyn hyfforddi ar gyfer y Ffurflen Byr Archwilio Busnes wedi'i ddosbarthu i bersonél yr orsaf dân, sydd wedi cael croeso da.

Yn dilyn adolygiad o'r adran Ymateb, cynhaliwyd gwaith i weithredu cyfres o rolau newydd, gan gynnwys wyth Cadlywydd Gorsaf newydd. Maent bellach wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i archwilio gweithgarwch gwaith yn eu hardal eu hunain.

